Datblygu Rhifedd

RHIFAU A'R SYSTEM RIFAU

Gweithgareddau ar gyfer y gwersi dyddiol

Blwyddyn 4

Steve Mills & Hilary Koll

A & C Black

Cyfieithiad

↦

Cynnwys

CYFLWYNIAD

GWERTH LLE, TREFNU A THALGRYNNU (RHIFAU CYFAIN)

Mil a 1000	darllen ac ysgrifennu rhifau cyfain	4
Rhif a Gair 1	darllen ac ysgrifennu rhifau cyfain	5
Rhif a Gair 2	darllen ac ysgrifennu rhifau cyfain	6
Beth yw ei werth?	gwybod beth mae pob digid yn ei gynrychioli	7
Pysgod Trofannol	gwybod beth mae pob digid yn ei gynrychioli	8
Sialens y Wal Frics	dosrannu rhifau mawr	9
Ysgol Adio	adio 1, 10, 100 a 1000 at unrhyw gyfanrif	10
Neidr Neidio'n Ôl	tynnu 1, 10, 100 a 1000 o unrhyw gyfanrif	11
Deg yn Fwy, Deg yn Llai	cyfrif ymlaen ac yn ôl mewn degau	12
Neidio Fesul Cant	cyfrif ymlaen ac yn ôl mewn cannoedd	13
Gweld y Patrwm	cyfrif ymlaen ac yn ôl mewn miloedd	14
Lluosi a Chyfateb	lluosi â 10	15
Rhannu a Chyfateb	rhannu â 10	16
Rhifau Rhyfedd	lluosi a rhannu â 10	17
Neidio'r Neidr	lluosi â 100	18
Math y Croc	mwy na / llai na / yn hafal i	19
Mwy, Llai Neu Yr Un Fath?	mwy na / llai na / yn hafal i	20
Cam i'r Canol	rhifau sy'n gorwedd rhwng dau rif a roddwyd	21
Pa Rif?	trefnu rhifau cyfain	22
Ble mae o?	amcangyfrif lleoliad ar linell rif	23
Mwddrwg Mathemateg 1	amcangyfrif meintiau	24
Gwenyn Prysur	talgrynnu i'r 10 agosaf	25
Talgrynnu	talgrynnu i'r 100 agosaf	26
Gyrrwyr Gwyllt	talgrynnu i'r 10 neu 100 agosaf	27
Rhifau Negyddol	rhifau negyddol mewn cyd-destun	28
Cynnes, Cynnes!	trefnu tymheredd	29

PRIODWEDDAU RHIFAU A DILYNIANNAU RHIF

Nyth o Rifau	adnabod ac ymestyn dilyniannau rhif	30
Cerrig Oer yr Afon	cyfrif fesul 25	31
Camau Cyfrif	cyfrif mewn camau o wahanol faint	32
Rhifau ar y Lein	cyfrif fesul 11	33
Posau Patrwm	cyfrif mewn camau o wahanol faint	34
Odrif neu Eilrif?	adnabod odrifau ac eilrifau	35
Mwddrwg Mathemateg 2	adnabod odrifau ac eilrifau a'u priodweddau	36
Ffyn Cyfrif	adnabod lluosrifau o 2, 3, 4, 5 at y degfed lluosrif	37
Yn Y Ffair	adnabod lluosrifau o 2, 3, 4, 5 at y degfed lluosrif	38

FFRACSIYNAU A DEGOLION

Rhannau o'r Cyfan	defnyddio nodiant ffracsiwn	39
Cyfateb Llun	adnabod rhifau cymysg	40
Ffracsiynau yn y Ffuglen	adnabod rhifau cymysg	41
Ffracsiynau Cyfartal	adnabod cywerth ffracsiynau syml	42
Gêm Ffracsiynau	adnabod dau ffracsiwn syml a'u cyfanswm yn un	43
Trefnu Ffracsiynau	trefnu set o ffracsiynau	44
Rhannu â Ffracsiynau	perthnasu ffracsiynau â rhannu	45
Rhifau'n Lleihau	darganfod ffracsiynau o rifau	46
Ffracsiynau Mesur	darganfod ffracsiynau o fesuriadau	47
Trin Arian	darganfod ffracsiynau o arian	48
Ffwdan Ffracsiynau	darganfod ffracsiwn sy'n un uned o un arall	49
Bargeinion	defnyddio syniadau o gyfrannedd syml	50
Un o bob …..	defnyddio syniadau o gyfrannedd syml	51
Adar Degol	defnyddio nodiant degol ar gyfer degfedau	52
Beth yw'r gwahaniaeth?	deall nodiant degol ar gyfer degfedau	53
Pysgota	trefnu degolion gydag un lle degol	54
Arian, Arian, Arian	trefnu cyfansymiau o arian	55
Punnoedd a Cheiniogau	newid arian o bunnoedd i geiniogau ac yn ôl	56
Centimedr Gantroed	trosi mesuriadau i wahanol unedau metric	57
Y Pris Cywir	talgrynnu swm o arian i'r bunt agosaf	58
Posau Pres	datrys problemau sy'n cynnwys arian a mesuriadau	59
Trwm ac Ysgafn	deall a chymharu degolion gyda chanfedau	60
Cwningod Coll	adnabod cywerthedd degolion a ffracsiynau	61

Mil a 1000

- **Darllenwch y rhifau.**
- **Ysgrifennwch mewn ffigyrau.**



- **Ysgrifennwch mewn geiriau.**



- **Ysgrifennwch mewn geiriau a ffigyrau pob rhif rhwng** 3000 **a** 4000 **sy'n** lluosrifau o 100 **.**
- **Ysgrifennwch mewn ffigyrau wyth rhif sy'n** lluosrif o 50 **.**
- **Gofynnwch i ffrind ysgrifennu'r ffigyrau mewn geiriau.**

Nodiadau'r Athro: Gellir cael yr eirfa o amgylch y dosbarth i hybu sillafu; a chardiau gwerth lle i helpu'r dealltwriaeth.

Rhif a Gair 1

- **Torrwch y cardiau.**
- **Ffeindiwch y parau sy'n cyfateb.**

7304	Chwe mil, dau gant ac wyth deg	6879
Tair mil, un cant a thri deg chwech	4155	Pedair mil, pum cant ac un deg pump
4515	Un deg dau mil, pedwar cant ac un deg saith	Saith mil, tri chant a phedwar
Pedair mil, un cant a phum deg pump	2012	10110
12417	Chwe mil, wyth gant a saith deg naw	3136
Dwy fil ac un deg dau	6280	Deng mil, un cant a deg

- **Gan ddefnyddio unrhyw rif rhwng** 100 **a** 10 0000 **gwnewch bum pâr o gardiau eraill.**
- **Cymysgwch nhw a gofyn i ffrind eu cyfateb.**

Nodiadau'r Athro: Bydd angen defnyddio'r cardiau ar dudalen 6 gyda'r dudalen hon. Gellir chwyddo'r taflenni ar bapur / cerdyn A3 a'u defnyddio wedyn fel gêm 'snap' ar gyfer grŵp / pâr.

Rhif a Gair 2

Un deg un mil, dau gant un deg un	9 040	Naw mil pedwar deg
3 704	Wyth mil, chwe chant pedwar deg naw	4 005
Chwe mil pedwar cant wyth deg naw	2 806	Tair mil un deg saith
10 809	Dwy fil wyth gant a chwech	Pedair mil chwe chant pum deg
Deng mil wyth gant a naw	4 650	12 115
8 649	Tair mil saith gant a phedwar	6 489
Pedair mil a phump	3 017	Un deg dau mil tri chant wyth deg dau
5 382	11 211	Pum mil tri chant ac wythdeg dau

Nodiadau'r Athro: I'w defnyddio gyda'r cardiau ar dudalen 5 i chwarae 'snap' neu 'parau.' Gellir amrywio'r gêm trwy ofyn am rifau heb ddegau ynddynt neu rifau'n gorffen gyda naw a.y.y.b.

Beth yw ei werth?

- **Darllenwch y digidau sydd wedi eu tanlinellu.**
- **Ysgrifennwch werth y digid mewn geiriau a ffigyrau.**



1.
2.
3.
4.
5.
6.
7.
8.

- **Ysgrifennwch chwe rhif gwahanol gan ddefnyddio bob un o'r digidau yma.**

4	5	1	0

- **Beth yw gwerth y digid** 5 **ym mhob rhif?**

Nodiadau'r Athro: Gellir defnyddio cardiau gwerth lle i gefnogi'r weithgaredd hon.

Pysgod Trofannol

- **Defnyddiwch yr allwedd i liwio'r pysgod.**

glas	rhifau'n cynnwys 2 yn y golofn mil
coch	rhifau'n cynnwys 4 yn y golofn cant
melyn	rhifau'n cynnwys 6 yn y golofn degau
gwyrdd	rhifau'n cynnwys 8 yn y golofn unedau



- **Ysgrifennwch gymaint o rifau dros 1000 ag y gellwch gan ddefnyddio rhai neu'r cwbl o'r digidau yma.**

1 3 5 7

- **Beth ydy'r rhif mwyaf?**
- **Beth ydy'r rhif lleiaf?**

Nodiadau'r Athro: Gwyliwch allan am y rhifau pump-digid; bydd rhai o'r disgyblion yn ei chael yn haws darllen o'r golofn unedau i ddechrau.

Sialens Y Wal Frics

- **Ffeindiwch barau o frics sy'n dangos yr un swm.**
- **Lliwiwch nhw gyda'r un lliw neu batrwm.**



- **Ysgrifennwch ddeg rhif sy'n** fwy na 1000 **.**
- **Torrwch y rhifau yn filoedd, cannoedd, degau ac unedau.**

Nodiadau'r Athro: Gall y disgyblion ddefnyddio eu cardiau gwerth lle i orffen y weithgaredd hon yn llwyddiannus.

Ysgol Adio

- **Gorffennwch y patrwm rhif ar bob ysgol.**
- **Dilynwch y cyfarwyddiadau ar y potiau paent.**



- **Edrychwch yn fanwl ar bob ysgol.**
- **Oes yna batrwm?**
- **Ysgrifennwch reol ar bob ysgol.**

Nodiadau'r Athro: Gellir trafod y rheolau a ddyfeisiwyd mewn grwpiau. Yn ystod y sesiwn gloi, rhaid gofalu bod digon o amser i drafod y rheolau ar gyfer pob ysgol.

Neidr Neidio'n Ôl

Gorffennwch y patrwm i lawr cefn pob neidr.



- **Edrychwch yn ofalus ar bob neidr.**
- **Fedrwch chi weld patrwm?**
- **Ysgrifennwch reol i bob neidr.**

Nodiadau'r Athro: Fel gyda gweithgaredd adio ar dudalen 10, cyfle i drafod y rheolau mewn grwpiau ac yn arbennig yn y sesiwn gloi.

Deg Yn Fwy, Deg Yn Llai

- **Gorffennwch y patrwm.**
- **Pa rifau sydd ar goll?**

1.


2.


3.


4.


Cyfrifwch yn ôl yn uchel fesul deg o 9999

Amserwch! Ar ôl tri munud pa rif ydych wedi ei gyrraedd?

Nodiadau'r Athro: Gofalwch fod y disgyblion yn edrych yn fanwl ar bob patrwm rhif, er mwyn penderfynu os yw'n mynd ymlaen neu'n ôl fesul deg.

Neidio Fesul Cant

- **Dewch o hyd i bedwar llwybr drwy'r grid. Wrth symud, lliwiwch focs sydd** 100 yn fwy **neu** 100 yn llai **na'r rhif diwethaf.**

	dechrau			dechrau		dechrau			dech	
	3451			7893		5372			9407	
3441	3461	3551	7993	7803	7903	5382	5272	9307	9417	9397
3431	3651	3561	3552	7893	7803	5172	5262	9617	9207	9197
3531	3551	3461	7793	7803	7883	5162	5072	9627	9104	9107
3561	3461	3451	7693	7683	7583	5172	5162	9637	9007	9004
3361	3351	3331	7003	7593	5272	5262	5162	8907	8904	9017
3251	3261	3311	7493	7403	5362	5172	8807	8917	8927	8937
3161	3151	7203	7303	7393	7383	5011	5072	8907	9927	9937
3061	3161	3051	6173	7283	7293	4972	6072	9907	9007	9917
3152	2951	3052	6193	7193	8293	5972	4872	9107	9201	8917
3051	2961	2962	7093	8193	9293	6972	4772	9507	9007	8817
2951	3961	6993	8093	9193	293	772	4672	8907	8717	9117
3951	2851	6913	6893	8193	8913	4172	4572	8617	8807	9217

Nodiadau'r Athro: Gellir cofnodi'r llwybrau ar dudalen wag i helpu'r dosbarth groesi'r grid, ac yna eu lliwio i fewn mewn 4 lliw gwahanol.

Gweld Y Patrwm

- **Dewch o hyd i'r patrymau ym mhob llinell.**
- **Gorffennwch y patrwm.**

Edrychwch yn ofalus. Ydy'r patrwm yn adio neu tynnu?

1743, 2743, 3743, ______, ______, ______, ______

9871, 8871, 7871, ______, ______, ______, ______

5617, 6617, 7617, ______, ______, ______, ______

13865, 12865, 11865, ______, ______, ______, ______

4762, 5762, 6762, ______, ______, ______, ______

12316, 11316, 10316, ______, ______, ______, ______

9160, 10160, 11160, ______, ______, ______, ______

11784, 10784, 9784, ______, ______, ______, ______

7431, 8431, 9431, ______, ______, ______, ______

16064, 15064, 14064, ______, ______, ______, ______

5172, 6172, 7172, ______, ______, ______, ______

13748, 12748, 11748, ______, ______, ______, ______

1655, 2655, 3655, ______, ______, ______, ______

- **Cyfrifwch ymlaen fesul** 1000 **o 782. Fedrwch chi gyrraedd 20782?**
- **Cyfrifwch yn ôl fesul** 1000 **o 19999.**

Nodiadau'r Athro: Anogwch y disgyblion i ddarllen yn uchel bob patrwm rhif ar ôl gorffen er mwyn gwirio'r atebion.

Lluosi a Chyfateb

- **Torrwch y cardiau.**
- **Rhowch yr ateb wrth bob cwestiwn.**
- **Ysgrifennwch reol am** luosi hefo 10 **.**

27 x 10	890	75 x 10	12 x 10	960	370
660	230	440	55 x 10	30 x 10	610
34 x 10	53 x 10	18 x 10	100 x 10	270	480
89 x 10	290	37 x 10	750	83 x 10	740
48 x 10	830	23 x 10	96 x 10	44 x 10	180
61 x 10	74 x 10	530	190	66 x 10	120
19 x 10	1000	300	340	29 x 10	550

Nodiadau'r Athro: Gellir defnyddio y cardiau i chwarae gêm "snap." Gofalwch bod y disgyblion yn ysgrifennu rheol lluosi hefo 10 a bod cyfle i drafod yn y sesiwn gloi. Rhaid osgoi dweud "adio dim" oblegid mae'n arwain at gamsyniadau. Arddangos symud y digidau ar draws y colofnau sy'n egluro'r broses orau.

Rhannu a Chyfateb



- **Ffeindiwch ateb i bob cwestiwn.**
- **Lliwiwch bob pâr yr un lliw.**
- **Ysgrifennwch reol am** rannu efo deg **.**

atebion

27
58
84
24
41
52
97
60
48

cwestiynau

910 ÷ 10
480 ÷ 10
870 ÷ 10
650 ÷ 10
410 ÷ 10
150 ÷ 10
390 ÷ 10
600 ÷ 10
840 ÷ 10
970 ÷ 10
740 ÷ 10
270 ÷ 10
350 ÷ 10
790 ÷ 10
580 ÷ 10
240 ÷ 10
520 ÷ 10
110 ÷ 10

atebion

79
11
74
35
91
15
87
65
39

- **Gwnewch fwy o symiau fel hyn.**
- **Ydy'r rheol yn gweithio?**

Nodiadau'r Athro: Trafodwch reolau'r dosbarth am rannu hefo deg. Mae bob rhif yn cael ei wneud "ddeg gwaith yn llai" – rhaid arddangos trwy symud y rhifau ar draws y colofnau.

Rhifau Rhyfedd

- **Mae rhai rhifau ar goll yn llyfr mathemateg Chloe.**
- **Fedrwch chi ddod o hyd iddynt?**

1. 23 x 10 = 2[3]0
2. 1□ x 10 = 170
3. □5 x 10 = 450
4. 49 x 10 = □90
5. □2 x 10 = 720
6. 3□0 ÷10 = 37
7. □50 ÷ 10 = 95
8. 680 ÷ 10 = 6□
9. □40 ÷ 10 = 54
10. 380 ÷ □ = 38
11. 7□ x 10 = □40
12. □ x 10 = 680
13. 1□ x 10 = □40
14. □9 x 10 = 2□0
15. □4 x 10 = 4□0
16. □10 ÷ 10 = 7□
17. 5□0 ÷ 10 = □4
18. □80 ÷ 10 = 2□
19. 6□0 ÷ 10 = □3
20. 170 ÷ 10 = □
21. 550 ÷ □ = 55
22. □ ÷ 10 = 24
23. □ ÷ 10 = 30
24. 8000 ÷ 10 = □

- **Dewiswch chwe rhif rhwng** 200 **a** 400
- **Lluoswch bob rhif â deg.**

Enghraifft: 235 x 10 = 2350

Nodiadau'r Athro: Dangoswch i'r dosbarth bod lluosi neu rannu â 10 yn cynnwys symud y digidau i'r chwith neu'r dde. Anogwch y disgyblion i ddarllen yn uchel eu hatebion.

Neidio'r Neidr

- **Taflwch ddîs a symud eich cownter.**
- **Lluoswch eich rhif hefo** 100 **.**
- **Ysgrifennwch a dywedwch yr ateb yn uchel.**
- **Gwiriwch eich atebion efo ffrind.**
- **Pwy ydy'r cyntaf i ennill?**



Nodiadau'r Athro: Gêm i'w chwarae â phartner yw hon. Rhaid cael dealltwriaeth o werth lle er mwyn lluosi â 100 a dweud yr ateb yn uchel. Gofalwch bod yr ateb yn cael ei ddweud yn uchel fel 'pedwar mil a saith gant' ac nid fel '47 sero sero.' Gellir ymestyn y gêm i luosi hefo 1000.

Math y Croc

- **Rhowch y rhif cywir yn y bwlch.**

Mae'r arwydd fel ceg crocodeil yn bwyta'r rhif mwyaf.

142 > 124

> mwy na

1. 300 yn fwy na 270 felly 300 > 270
2. ____ yn fwy na 651 felly ____ > 651

3. ____ > 351 4. ____ > 624 5. ____ > 888

6. ____ > 795 7. ____ > 910 8. ____ > 999



Cofiwch, mae'r crocodeil <u>bob amser</u> yn bwyta'r rhif mwyaf.

< llai na

9. 388 yn llai na 412 felly 388 < 412
10. ____ yn llai na 975 felly ____ < 975

11. ____ < 628 12. ____ < 189 13. ____ < 541

14. ____ < 167 15. ____ < 74 16. ____ <0

= yn hafal i

17. 417 yn hafal i 400 + 10 + 7 felly 417 = 400 + 10 + 17
18. ____ yn hafal i 700 + 6 felly ____ = ________
19. ____ yn hafal i 800 + 40 + 5 felly ____ = ________
20. ____ yn hafal i 300 + 90 + 3 felly ____ = ________

- **Ysgrifennwch 10 brawddeg yn defnyddio:**

mwy na	llai na	yn hafal i

Nodiadau'r Athro: Eglurwch i'r disgyblion bod y pen llydan yn y symbol mwy na / llai na bob amser nesaf at y rhif mwyaf.

Mwy, Llai Neu Yr Un Fath?

- **Rhowch y symbol cywir yn y bocs.**

> < =



1. 562 ☐ 643
2. 414 ☐ 441
3. 62 ☐ 62
4. 479 ☐ 497
5. 862 ☐ 628
6. 97 ☐ 197
7. dau gant saith deg pedwar ☐ 376
8. un mil pum deg pump ☐ 1202
9. wyth gant ac wyth ☐ 808
10. chwe chant ac un deg dau ☐ 621
11. dwy fil pedwar cant ☐ 2400
12. chwe mil a saith ☐ 607

Gwnewch mwy o frawddegau rhif gan ddefnyddio rhai, neu'r cwbl o'r rhifau a'r symbolau.

3 5 5 2 > < =

Enghreifftiau 3 < 52 355 > 2 5 = 5

Nodiadau'r Athro: Defnyddio'r symbol mwy na / llai na yn gywir gan gyfeirio at ben llydan ceg y crocodeil.

Cam i'r Canol

- **Ysgrifennwch unrhyw rif sy'n dod rhwng:**



1. 4562 5555 7241
2. 3174 ______ 5726
3. 6286 ______ 7175
4. 9814 ______ 9673
5. 8495 ______ 7991
6. 4756 ______ 3412
7. 9357 ______ 8941
8. 2913 ______ 3709
9. 4603 ______ 5127
10. 7159 ______ 8004
11. 3864 ______ 3519
12. 5981 ______ 6273

- **Ysgrifennwch ddau rif sy'n dod rhwng:**

13. 9421 9163 8110 7019
14. 6387 ______ ______ 8535
15. 1394 ______ ______ 581
16. 5062 ______ ______ 6537
17. 8933 ______ ______ 9999

- **Ysgrifennwch wyth pâr o rifau tebyg i'r uchod gan adael bylchau yn y canol i'ch ffrind eu llenwi.**

Pa Rif?

- Torrwch y rhifau a'u gosod mewn trefn gan gychwyn â'r rhif lleiaf.
- Dewiswch ddau gerdyn ac ysgrifennwch y rhifau.
- Ysgrifennwch rif arall sydd rhwng y ddau.
- Gwnewch yr un peth efo pum pâr o gardiau.

1917	4278	1784
5793	4104	8175
4953	4563	5817
7536	4912	1428

Nodiadau'r Athro: Gellir defnyddio'r weithgaredd yma fel gêm i ddau. Gosodir y cardiau wyneb i waered. Yn eu tro, codi dau gerdyn a rhoi rhif sy'n gorwedd rhwng rhifau y ddau gerdyn a godwyd.

Ble Mae O?

- **Amcangyfrifwch at ba rif mae'r saeth yn pwyntio.**



- **Tynnwch lun tair llinell amcangyfrif arall.**
- **Gofynnwch i ffrind amcangyfrif y rhif.**
- **Ysgrifennwch eich atebion cyn eu rhoi i'ch ffrind.**

Nodiadau'r Athro: Ymarfer amcangyfrif rhifau ar y llinell rif gyda'r dosbarth cyfan. Trafod rhannu'r llinell i rannau cyfartal er mwyn adnabod y rhif. Adolygu iaith amcangyfrif gyda'r dosbarth – brasamcan, tua, o gwmpas…..

Mwddrwg Mathemateg

Mae Mwddrwg wedi bod yn bwyta fferins! Mae'r label yn dweud faint o fferins oedd yn y jar llawn.

- **Amcangyfrifwch faint sydd ar ôl.**



Mae tua

o fferins



Mae tua

o fferins



Mae tua

o fferins

Mae tua

o fferins

Mae tua

o fferins



Mae tua

o fferins

- **Ysgrifennwch sut gawsoch yr ateb.**
- **Oedd eich ffrind wedi cael yr ateb yn yr un modd?**

Nodiadau'r Athro: Yn y sesiwn gloi, trafodwch gyda'r disgyblion eu dull o amcangyfrif.

Gwenyn Prysur

Mae'r swigod yn dweud sut i dalgrynnu at y deg agosaf **.**

- **Talgrynwch bob rhif ar y gwenyn** at y deg agosaf **.**
- **Tynnwch linell o'r gwenyn at y blodyn sy'n cyfateb.**



- **Dewiswch dri cerdyn o bac o gardiau chwarae.**
- **Defnyddiwch y rhifau ar y cardiau i wneud** rhif tri digid **.**
- **Talgrynwch y rhif** at y deg agosaf **.**
- **Gwnewch hyn bum gwaith gan ddefnyddio cardiau gwahanol bob tro.**

Nodiadau'r Athro: Awgrymu defnyddio lliwiau gwahanol i bob blodyn a gwenyn sy'n cyfateb.

Talgrynnu

Mae'r swigod yn dweud sut i dalgrynnu at y 100 agosaf **.**

Mae 233 wedi ei dalgrynnu at y cant agosaf yn 200

Mae 456 wedi ei dalgrynnu at y cant agosaf yn 500

- **Talgrynwch y rhifau yn y balwnau i'r** 100 agosaf **.**
- **Ysgrifennwch y rhif.**



- **Dewiswch bedwar cerdyn o bac o gardiau chwarae**
- **Defnyddiwch y rhifau ar y cardiau i wneud** rhif pedwar digid
- **Talgrynwch y rhif at y** 100 agosaf
- **Gwnewch hyn bum gwaith gan ddefnyddio gwahanol gardiau bob tro**

Nodiadau'r Athro: Atgoffa'r disgyblion pan mae rhif yn cael ei dalgrynnu i'r 100 agosaf, y bydd y rhif yma'n luosrif o 100 bob amser.

Gyrrwyr Gwyllt!

Dyma'r pellter mae dwy lori yn deithio bob dydd.

- **Talgrynwch y pellter at y** 10 milltir agosaf **.**

Llun	353 milltir	350 milltir
Mawrth	176 milltir	
Mercher	38 milltir	
Iau	214 milltir	
Gwener	419 milltir	
Sadwrn	99 milltir	

- **Talgrynwch y pellter at y** 100 milltir agosaf **.**

Llun	220 milltir	
Mawrth	684 milltir	
Mercher	178 milltir	
Iau	314 milltir	
Gwener	454 milltir	
Sadwrn	50 milltir	

- **Dewch o hyd i dabl pellter mewn atlas.**
- **Dewiswch chwe pellter a'u talgrynnu at y**

10 milltir agosaf 100 milltir agosaf

Nodiadau'r Athro: Atgoffa'r dosbarth pan mae rhif yn cael ei dalgrynnu i'r 10 agosaf, bydd yr ateb yn luosrif o 10; ac yn yr un modd wrth dalgrynnu i'r 100 agosaf, y bydd yr ateb yn luosrif o 100.

Rhifau Negyddol

- **Ysgrifennwch y rhifau coll.**

–5 –4 ☐ –2 –1 0 1 ☐ 3 4 5

–8 –7 –6 ☐ –4 –3 ☐ –1 0 1 2

–1 –1 ☐ –8 –7 –6 –5 ☐ –3 –2 –1

–3 –2 ☐ 0 1 2 ☐ 4 5 6 7

–5 –4 –3 ☐ –1 0 ☐ 2 3 4 5

–6 ☐ –4 ☐ –2 –1 0 1 2 3 4

- **Ysgrifennwch beth yw'r tymheredd ar bob thermomedr.**



Nodiadau'r Athro: Gofalwch bod digon o gyfle i'r disgyblion ymarfer dweud yn uchel rifau negydd yn ôl o sero.

Cynnes, Cynnes!

- **Rhowch y rhestr tymheredd mewn trefn gan ddechrau gyda'r oeraf.**

1. -5°C 1°C -2°C 6°C 0°C 3°C -4°C ~~-8°C~~

-8°C							

2. 3°C -9°C 4°C 2°C 0°C -1°C -3°C 5°C

3. 12°C -3°C 6°C -6°C 8°C 9°C -1°C 0°C

4. -1°C 5°C 0°C -5°C 7°C 4°C -2°C 1°C

5. -1°C 2°C -2°C -4°C 5°C -6°C -9°C 8°C

- **Gwnewch wyth cerdyn tymheredd arall.**
- **Cymysgwch nhw. Pa mor sydyn fedrwch chi eu gosod mewn trefn o'r** oeraf i'r cynhesaf **.**

Nodiadau'r Athro: Yn ystod cyflwyniad gwaith llafar / pen, dylid cynllunio llinell rif o –10 i 10 er mwyn trafod a chymharu lleoliad rhifau ar y llinell.

Nyth O Rifau

- **Cyfrifwch yn ôl o bob rhif fesul** pump
  Arhoswch ar ôl cyrraedd sero



- **Cyfrifwch yn ôl o bob rhif fesul** tri**. Arhoswch ar ôl cyrraedd neu basio** -30 **.**



- **Cyfrifwch yn ôl o bob rhif fesul** pedwar **Arhoswch ar ôl cyrraedd neu basio** -40 **.**



- **Beth am chwarae gêm gyfrif efo ffrind.**
- **Dewiswch rif a gofynnwch i'ch ffrind gyfrif yn ôl neu ymlaen fesul** tri**.**
- **Pa mor bell fedr eich ffrind gyfrif?**

Nodiadau'r Athro: Mae angen digon o ymarfer cyfrif ymlaen ac yn ôl heibio sero ar y dosbarth. Gellir dangos naid o faint arbennig ar y llinell rif. Dylid cael cofnod o'r gwaith cyfrif yn y prif weithgaredd ac efallai yn yr estyniad er mwyn gwirio'r atebion.

Cerrig Oer Yr Afon

- **Cyfrwch o 0 fesul 25.**
- **Ar ôl cyrraedd 400, cyfrwch yn ôl at -100.**
- **Ysgrifennwch y rhifau ar gerrig oer yr afon.**



- **Lluniwch lwybr cerrig eich hun. Cyfrwch o 2 mewn camau o 25.**
- **Ar ôl cyrraedd 502 cyfrwch yn ôl at -102**

Nodiadau'r Athro: Gellir gwneud cerrig oer yr afon allan o bapur a'u gosod ar lawr y dosbarth mewn trefn. Awgrymir ychwanegu rhifau ar y cerrig os bydd angen mwy o help.

Camau Cyfrif

- **Torrwch y cardiau a'u gosod wyneb i waered.**
- **Codwch gerdyn yn eich tro a dilyn y cyfarwyddiadau.**
- **Gofynnwch i ffrind wirio'r atebion.**

Cyfrwch ymlaen o –60 i 120 mewn camau o 10	Cyfrwch yn ôl o 410 i -70 mewn camau o 40	Cyfrwch ymlaen o –70 i 220 mewn camau o 30
Cyfrwch yn ôl o 370 i -110 mewn camau o 30	Cyfrwch ymlaen o –50 i 250 mewn camau o 20	Cyfrwch ymlaen o –85 i 135 mewn camau o 20
Cyfrwch ymlaen o –310 i 240 mewn camau o 50	Cyfrwch yn ôl o 444 i -156 mewn camau o 40	Cyfrwch yn ôl o 75 i -85 mewn camau o 10
Cyfrwch yn ôl o 227 i -53 mewn camau o 20	Cyfrwch yn ôl o 320 i -280 mewn camau o 50	Cyfrwch ymlaen o –60 i 270 mewn camau o 30
Cyfrwch yn ôl o 245 i -135 mewn camau o 20	Cyfrwch ymlaen o –410 i 240 mewn camau o 50	Cyfrwch yn ôl o 220 i -50 mewn camau o 30
Cyfrwch yn ôl o 280 i -320 mewn camau o 50	Cyfrwch ymlaen o –90 i 390 mewn camau o 40	Cyfrwch ymlaen o –207 i 353 mewn camau o 40

Nodiadau'r Athro: Gellir defnyddio'r gêm yma fel gweithgar gwaith pen ar gyfer y dosbarth cyfan, neu ar gyfer unigolion a gwaith pâr amser chwarae gwlyb.

Rhifau Ar Y Lein

- **Dilynwch y patrwm rhif.**



- **Ysgrifennwch reol i egluro beth sy'n digwydd wrth i chi**

adio11	tynnu 11

- **Ysgrifennwch dri patrwm rhif sy'n** cyfrif ymlaen fesul 9 **neu** yn ôl fesul 9**. Dechreuwch ar wahanol rifau.**
- **Ysgrifennwch reol i egluro beth sy'n digwydd wrth i chi**

adio 9	tynnu 9

Posau Patrwm

1. Lliwiwch y lluosrifau o 9 **.**

1	2	3	4	5	6	7	8	9	10
11	12	13	14	15	16	17	18	19	20
21	22	23	24	25	26	27	28	29	30
31	32	33	34	35	36	37	38	39	40
41	42	43	44	45	46	47	48	49	50
51	52	53	54	55	56	57	58	59	60
61	62	63	64	65	66	67	68	69	70
71	72	73	74	75	76	77	78	79	80
81	82	83	84	85	86	87	88	89	90
91	92	93	94	95	96	97	98	99	100

2. Lliwiwch y lluosrifau o 6 **.**

1	20	21	40	41	60	61	80	81	100
2	19	22	39	42	59	62	79	82	99
3	18	23	38	43	58	63	78	83	98
4	17	24	37	44	57	64	77	84	97
5	16	25	36	45	56	65	76	85	96
6	15	26	35	46	55	66	75	86	95
7	14	27	34	47	54	67	74	87	94
8	13	28	33	48	53	68	73	88	93
9	12	29	32	49	52	69	72	89	92
10	11	30	31	50	51	70	71	90	91

3. Lliwiwch y lluosrifau o 4 **.**

73	74	75	76	77	78	79	80	81	82
72	43	44	45	46	47	48	49	50	83
71	42	21	22	23	24	25	26	51	84
70	41	20	7	8	9	10	27	52	85
69	40	19	6	1	2	11	28	53	86
68	39	18	5	4	3	12	29	54	87
67	38	17	16	15	14	13	30	55	88
66	37	36	35	34	33	32	31	56	89
65	64	63	62	61	60	59	58	57	90
100	99	98	97	96	95	94	93	92	91

4. Lliwiwch y lluosrifau o 2 **.**

1	3	6	10	15	21	28	36	45	55
2	5	9	14	20	27	35	44	54	64
4	8	13	19	26	34	43	53	63	72
7	12	18	25	33	42	52	62	71	79
11	17	24	32	41	51	61	70	78	85
16	23	31	40	50	60	69	77	84	90
22	30	39	49	59	68	76	83	89	94
29	38	48	58	67	75	82	88	93	97
37	47	57	66	74	81	87	92	96	99
46	56	65	73	80	86	91	95	98	100

- **Ar yr ail grid defnyddiwch liw arall i liwio** lluosrifau o 3 **.**
- **Beth ydych chi'n sylwi am y** lluosrifau o 6 **.**

Nodiadau'r Athro: Gellir llungopio'r dudalen hon ar gyfer ymchwilio i wahanol batrymau lluosrifau. Er enghraifft, gellir lliwio lluosrifau 4 ym mhob un o'r 4 grid. Yn fwriadol, cyflwynir y rhifau o 1 – 100 mewn amrywiol drefniant er mwyn i'r disgyblion ganolbwyntio ar luosrifau pob rhif.

Odrif neu Eilrif?

- **Lliwiwch bob** eilrif **yn las.**
- **Lliwiwch bob** odrif **yn felyn.**

9714	−107	374	621	400	
3236	14	788	4503	−1	214
555	2745	8641	1004	−25	4771
899	−156	6723	809	9352	36
5679	−208	8814	2486	7566	−250
2793	917	146	1999	5004	801
1358	649	−48	2189	17	1603
1426	293	3145	124	6060	7963

- **Ysgrifennwch reol i adnabod**

eilrif   odrif

- **Cyfnewid eich rheolau hefo ffrind.**
- **Profwch reolau eich gilydd. Ydyn nhw'n gweithio?**

Nodiadau'r Athro: Gofalu bod digon o amser i drafod rheolau ei gilydd.

Mwddrwg Mathemateg 2

Mae Mwddrwg yn rhoi atebion anghywir. Pa rai?

- **Edrychwch ar bob swigen a rhowch ✔ neu ✘ yn y bocs.**
- **Eglurwch eich atebion.**

1. Mae digid olaf eilrif yn 0, 2, 4, 6 neu 7. ☐

2. Ydy eilrif + eilrif = eilrif? ☐

3. Mae odrif yn dilyn pob eilrif. ☐

4. Mae digid cyntaf pob odrif yn 1, 3, 7, 9 neu 5. ☐

5. Ydy odrif + odrif = odrif? ☐

6. Ydy odrif + eilrif = odrif? ☐

7. Wrth ddyblu rhif sy'n gorffen â 0 neu 2 bydd yr ateb bob amser yn gorffen â 0 neu 4. ☐

Ysgrifennwch frawddeg rhif am

adio tri eilrif

adio dau eilrif ac un odrif

Profwch y brawddegau i weld os yw'r rheol yn gywir.

Nodiadau'r Athro: Gofalwch fod y disgyblion yn deall nad yw un enghraifft yn ddigon i brofi datganiad cyffredinol, er bod un enghraifft yn ddigon i wrthbrofi'r datganiad.

Ffyn Cyfri

Mae'r rhifau ar y ffon yma yn rhannu'n union â thri.



1. **Pa rifau ar y ffon sy'n** yn rhannu'n union â dau.

2. **Mae'r rhifau ar y ffon yma** yn rhannu'n union â dau a thri.

3. **Ysgrifennwch** luosrifau o bump **ar y ffon gyfri yma.**



4. **Ysgrifennwch** luosrifau o bedwar **ar y ffon gyfri yma.**

5. **Ysgrifennwch rif sy'n rhannu'n union â**

pedwar a thri _____ pump a dau _____

pedwar a phump _____ tri a phump _____

- **Ysgrifennwch frawddeg am rifau sy'n**

rhannu'n union â thri a phedwar

rhannu'n union â phump a dau

Nodiadau'r Athro: Yn ystod y wers, arddangos bod lluosrifau rhif yn ranadwy â rhif.

Yn Y Ffair

- **Cylchwch y rhifau cywir.**

lluosrifau o 5



(5) 11 45 51 10
24 35 41 15
29 31 50

ddim yn lluosrifau o 2

6 5 9 2
11 10
8 7 13
4 21
18
8 15 16

lluosrifau o 10

10 30 45 60
5 50 75 40
25 70 85 20

lluosrifau o 5 a 10

18 15 61 10
14 45 100 30 17
41 25 19 70

- **Rhowch y siâp cywir o gwmpas y rhifau.**

Allwedd	
○	rhifau sy'n rhannu'n union efo 2
□	rhifau sy'n rhannu'n union efo 5
△	rhifau sy'n rhannu'n union efo 10

(2) 30 65 14 55 4 15
5
95 50 35 16 8 20 90
40 12 85 75 70 6
18 60 100 10 45

Nodiadau'r Athro: Atgoffa'r disgyblion i ddarllen y cyfarwyddiadau'n gywir ymhob rhan o'r dasg. Gellir didoli'r rhifau i ddiagram Venn, ac y bydd rhai rhifau'n perthyn i fwy nag un siâp.

Rhannau O'r Cyfan

- **Ysgrifennwch y ffracsiwn cywir o dan bob llun.**

1. rhannau wedi eu lliwio = ☐



2. sanau smotiau = ☐

3. peli gwyn = ☐



4. grawnwin du = ☐



- **Lliwiwch y lluniau i ddangos:**

5.  $\frac{5}{12}$

6.  $\frac{7}{12}$

7.  $\frac{7}{8}$

8.  $\frac{4}{9}$

9.  $\frac{2}{5}$

10.  $\frac{9}{15}$

- **Tynnwch luniau a'u lliwio i ddangos y ffracsiynau yma.**

$\frac{7}{9}$ $\frac{2}{3}$ $\frac{5}{8}$ $\frac{4}{5}$ $\frac{1}{2}$ $\frac{3}{4}$

Nodiadau'r Athro: Gyda'r grawnwin du, fel enghraifft, bydd rhai disgyblion yn sylwi for $^{15}/_{25}$ yn hafal i $^{3}/_{5}$. Gellir trafod y pwynt yma yn y sesiwn gloi.

Cyfateb Llun

- **Pa ffracsiynau sy'n cyfateb â'r llun cywir?**
- **Lliwiwch pob pâr cywir â lliw gwahanol.**

cwpanau sudd

$2\frac{7}{12}$

hyd mewn centimetrau



taldra mewn metrau



$2\frac{1}{6}$

paciau o bensiliau



$4\frac{3}{8}$

$1\frac{1}{4}$

pitsa



tusw o flodau



$3\frac{3}{10}$

bagiau o fferins

$3\frac{3}{4}$

bariau o siocled



$4\frac{1}{2}$

$4\frac{1}{3}$

- **Tynnwch luniau i ddangos y ffracsiynau yma.**

$3\frac{1}{3}$ $5\frac{2}{3}$ $4\frac{1}{4}$ $2\frac{3}{4}$ $1\frac{3}{4}$ $2\frac{2}{3}$ $3\frac{1}{6}$ $4\frac{5}{7}$

Nodiadau'r Athro: Mae'n bwysig cyfeirio at yr "uned" er enghraifft, $4^1/_3$ tusw o flodau, oblegid bydd rhai disgyblion yn cyfrif y blodau'n unigol fel 13 blodyn.

Ffracsiynau yn y Ffuglen

- **Parwch y ffracsiynau i'r ffuglen.**



- **Gwnewch bum cerdyn. Ysgrifennwch ffracsiwn ar bob cerdyn.**
- **Ysgrifennwch eiriau i baru â bob ffracsiwn ar gerdyn arall.**
- **Cymysgwch y cardiau a chwarae snap gyda ffrind.**

Nodiadau'r Athro: Gofynnwch i'r disgyblion liwio pob pâr sy'n cyfateb mewn lliw gwahanol. Pwyntiwch allan iddynt y bydd rhai ffracsiynau dros ben unwaith bydd y parau wedi eu cyfateb. Gyda'r weithgaredd ymestynnol gellir chwarae 'snap' trwy gyfateb y ffracsiwn mewn ffigyrau â'r ffracsiwn mewn geiriau.

Ffracsiynau Cyfartal

- **Torrwch y cardiau allan.**
- **Grwpiwch y ffracsiynau cyfartal.**

$\frac{3}{4}$	$\frac{1}{2}$	$\frac{2}{10}$	$\frac{1}{3}$	$\frac{2}{12}$	$\frac{4}{8}$
$\frac{2}{3}$	$\frac{2}{18}$	$\frac{4}{12}$	$\frac{6}{8}$	$\frac{4}{20}$	$\frac{1}{4}$
$\frac{7}{14}$	$\frac{2}{5}$	$\frac{12}{16}$	$\frac{3}{6}$	$\frac{50}{100}$	$\frac{4}{16}$
$\frac{2}{8}$	$\frac{2}{14}$	$\frac{8}{20}$	$\frac{1}{5}$	$\frac{8}{12}$	$\frac{2}{6}$
$\frac{5}{15}$	$\frac{2}{4}$	$\frac{10}{40}$	$\frac{4}{16}$	$\frac{1}{7}$	$\frac{4}{10}$
$\frac{4}{6}$	$\frac{5}{20}$	$\frac{3}{9}$	$\frac{1}{6}$	$\frac{5}{10}$	$\frac{12}{16}$
$\frac{10}{30}$	$\frac{3}{15}$	$\frac{8}{16}$	$\frac{25}{50}$	$\frac{1}{9}$	$\frac{6}{9}$

Nodiadau'r Athro: Gellir llungopio'r dudalen hon i A3. Bydd wal ffracsiynau yn ddefnyddiol er mwyn gwirio'r cywerthoedd. Os bydd angen mwy o gymorth ar rai disgyblion, gellir tynnu allan y ffracsiynau anodd.

Gêm Ffracsiynau

- **Gyda ffrind cymrwch dro i daflu dîs a symud cownter.**
- **Wrth lanio ar ffracsiwn, meddyliwch faint yn fwy sydd ei angen i wneud un cyfan.**

Enghraifft: $\frac{1}{2} + \frac{1}{2} = 1$

- **Ysgrifennwch eich atebion.**



Nodiadau'r Athro: Gellir chwarae'r gêm yma o un i bedwar chwaraewr. Bydd angen dîs i'r grŵp a chownter i bob un chwaraewr. Gellir gwirio atebion eich gilydd. Fel gwaith ymestynnol, gall y disgyblion wneud fersiwn eu hunain o'r gêm trwy addasu'r ffracsiynau.

Trefnu Ffracsiynau

- **Ysgrifennwch y ffracsiynau mewn trefn gan ddechrau â'r lleiaf.**

1.

$\frac{3}{8}$ $\frac{1}{4}$ $\frac{7}{8}$ $\frac{5}{8}$ $\frac{1}{2}$ $\frac{1}{8}$ $\frac{3}{4}$

____

2.

$\frac{3}{10}$ $\frac{1}{2}$ $\frac{4}{5}$ $\frac{1}{10}$ $\frac{2}{5}$ $\frac{7}{10}$ $\frac{3}{5}$ $\frac{1}{5}$

____

- **Ysgrifennwch y ffracsiynau yn y man cywir.**

$\frac{3}{4}$ (crossed out)	$\frac{3}{10}$ (crossed out)	$\frac{7}{8}$	$\frac{1}{7}$	$\frac{4}{7}$	$\frac{1}{3}$	$\frac{1}{9}$	$\frac{2}{10}$
$\frac{4}{5}$	$\frac{1}{10}$	$\frac{2}{6}$	$\frac{5}{9}$	$\frac{1}{5}$	$\frac{4}{10}$	$\frac{7}{10}$	$\frac{1}{4}$

Llai na $\frac{1}{2}$	Mwy na $\frac{1}{2}$
$\frac{3}{10}$	$\frac{3}{4}$

Nodiadau'r Athro: Anogwch y disgyblion i ddod o hyd i ffracsiynau cywerth i'w helpu ar gyfer trefnu ffracsiynau gyda gwahanol enwadur. Efallai y bydd angen wal ffracsiynau ar rai disgyblion i'w helpu gyda'r weithgaredd.

Rhannu â Ffracsiynau

- **Llenwch y bylchau â ffracsiwn.**

1. $18 \div 2 = \frac{1}{2}$ o 18
2. $12 \div 3 =$ ☐ o 12
3. $15 \div 3 =$ ☐ o 15
4. $8 \div 2 =$ ☐ o 8
5. $10 \div 5 =$ ☐ o 10
6. $20 \div 4 =$ ☐ o 20
7. $12 \div 6 =$ ☐ o 12
8. $15 \div 5 =$ ☐ o 15
9. $14 \div 2 =$ ☐ o 14
10. $9 \div 3 =$ ☐ o 9
11. $21 \div 7 =$ ☐ o 21
12. $16 \div 8 =$ ☐ o 16
13. $18 \div 9 =$ ☐ o 18
14. $12 \div 4 =$ ☐ o 12
15. $25 \div 5 =$ ☐ o 25
16. $14 \div 7 =$ ☐ o 14
17. $24 \div 8 =$ ☐ o 24
18. $36 \div 6 =$ ☐ o 36

- **Copiwch y brawddegau rhif.**
- **Ychwanegwch yr arwydd "yn hafal i" ac ysgrifennwch yr ateb.**

Esiampl: $18 \div 8 = \frac{1}{2}$ of $18 = 9$

Nodiadau'r Athro: Dylid rhoi y math yma o gwestiwn yn llafar i'r disgyblion.

Rhifau'n Lleihau

- **Dewch o hyd i'r atebion.**



1. Beth ydy un degfed o…..

50?		100?		30?		500?	

2. Beth ydy un pumed o…..

25?		40?		15?		100?	

3. Beth ydy un chwarter o…..

16?		32?		40?		400?	

4.  Beth ydy $\frac{1}{2}$ o….

20?		50?		100?		12?	

5. Beth ydy $\frac{1}{6}$ o….

12?		60?		24?		36?	

6. Beth ydy $\frac{1}{8}$ o….

8?		40?		16?		80?	

- **Ysgrifennwch yr atebion fel brawddeg rif rannu.**

Enghraifft: un deged o 50 = 50 ÷ 10 = 5

Nodiadau'r Athro: Anogwch y disgyblion i ddefnyddio rhannu i ddarganfod yr atebion a lluosi i'w gwirio.

Ffracsiynau Mesur

- **Cwblhewch y mesuriadau coll.**

1.



12m o ruban

$\frac{1}{2}$ $\frac{1}{4}$ $\frac{1}{3}$

6 m 3 m 4 m

2.

10kg o datws

$\frac{1}{2}$ $\frac{1}{5}$ $\frac{1}{10}$

____ ____ ____

3.

300ml o ddwr

$\frac{1}{2}$ $\frac{1}{10}$ $\frac{1}{3}$

____ ____ ____

4.

20m o linyn

$\frac{1}{2}$ $\frac{1}{5}$ $\frac{1}{10}$

____ ____ ____

5.

50kg ohonof i

$\frac{1}{2}$ $\frac{1}{5}$ $\frac{1}{10}$

____ ____ ____

6.

1000ml o wîn

$\frac{1}{2}$ $\frac{1}{4}$ $\frac{1}{5}$

____ ____ ____

- **Rhowch y ffracsiwn cywir o £48 i bob plentyn.**

Rhowch $^1/_8$ i Aled

Rhowch $^1/_6$ i Dewi



Rhowch $^1/_4$ i Huw



Rhowch $^1/_{12}$ i Carys



- **Faint o arian sydd ar ôl?**



Nodiadau'r Athro: Anogwch y disgyblion i ysgrifennu'r unedau o fesur ar gyfer pob ateb.

Trin Arian

- **Ysgrifennwch yr atebion i'r cwestiynau arian.**

1. $\frac{1}{2}$ £1 = 50p
2. $\frac{1}{4}$ £2 =
3. $\frac{1}{5}$ 10c =
4. $\frac{1}{6}$ £3 =
5. $\frac{1}{4}$ 20c =
6. $\frac{1}{10}$ £30 =
7. $\frac{1}{3}$ 90c =
8. $\frac{1}{5}$ £50 =

- **Rhowch gylch o gwmpas y pwrs sydd â'r swm lleiaf o arian.**



- **Gwnewch bôs arian ar bedwar pwrs arall.**
- **Gofynnwch i ffrind ateb y pôs.**
- **Ysgrifennwch yr atebion cyn i'ch ffrind eu hateb.**

Nodiadau'r Athro: Atgoffa'r disgyblion i gynnwys symbol yr unedau yn eu hatebion, e.e. £ neu c.

Ffwdan Ffracsiynau

- **Pa ffracsiwn o'r siâp mwyaf yw'r siâp lleiaf?**

Enghraifft:



$\frac{2}{5}$

1.  ____

2.  ____

3.  ____

4.  ____

5.  ____

6.  ____

- **Pa ffracsiwn o'r sach fwyaf yw'r sach leiaf?**

Enghraifft:



$\frac{1}{2}$

1.

____

2.

____

3. 

____

4.

____

Nodiadau'r Athro: Mae rhai disgyblion yn cael y gwaith yma'n anodd; atgoffwch hwy y dylid edrych ar y gwrthrych mwyaf neu eitem fel yr un cyfan. Fel gwaith estynedig, gellir gwneud y siapiau allan o giwbiau cyd-gloi gan ddefnyddio lliwiau gwahanol i rannau o bob siâp. Gallant ofyn cwestiynau am y rhannau lliw i'w gilydd.

Bargeinion



- **Rhestrwch yr eitemau i'w cael am ddim pan brynwch:**

1. 2 fag o greision a 3 phecyn o fisgedi
2. 16 o afalau a 3 phecyn o fisgedi
3. 4 bag o greision a 24 o afalau
4. 6 pecyn o fisgedi a 2 fag o greision
5. 8 o afalau a 6 phecyn o fisgedi
6. 4 bag o greision, 8 o afalau a 3 phecyn o fisgedi
7. 6 pecyn o fisgedi, 6 bag o greision a 24 o afalau

- **Defnyddiwch 3 eitem arall i lunio bargen.**
- **Ysgrifennwch bedair rhestr siopa o'ch eitemau.**
- **Pa eitemau sydd yn dod am ddim gyda phob rhestr siopa?**
- **Nodwch yr atebion cyn eu rhoi i'ch ffrind.**

Nodiadau'r Athro: Mae'r gweithgareddau ar y dudalen hon yn cynnwys syniadau cynnar o gyfrannedd. Ar gyfer y disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol dylid gofalu bod digon o adnoddau ymarferol ar gael i'w helpu.

Un o bob......

- **Lliwiwch bob sgarff â'r patrwm cywir.**

Enghraifft: Un o bob tri rhan wedi ei liwio.



1. Un o bob pedwar rhan yn goch.



2. Un o bob pump rhan yn felyn.



3. Un o bob naw rhan yn biws.

4. Un o bob saith rhan yn frown.



Mewn dosbarth o 30 o blant mae

un o bob pum plentyn yn cael afal
un o bob chwe plentyn yn cael banana
un o bob tri plentyn yn cael bisged

- **Sawl plentyn sy'n cael**

afal? ☐ banana? ☐ bisged? ☐

Nodiadau'r Athro: Gofalwch fod y disgyblion yn disgrifio'r cyfraneddau hyn trwy ddefnyddio'r geiriau "ym mhob." Mae termau "am bob" a "i bob" yn disgrifio nifer yn rhannau o un i'w gymharu â nifer y rhannau o un arall. Syniad gwahanol yw hwn i'r hyn eglurir ar y dudalen, lle mae un rhan yn cymharu ag un cyfan.

Adar Degol

Ysgrifennwch mewn geiriau **gwerth pob digid sydd wedi'i danlinellu.**



- **Ysgrifennwch y ffracsiynau yma fel degolion.**



5 pedwar degfed = ☐

6 wyth a dau ddegfed = ☐

7 deg a chwe degfed = ☐

8 un ac un degfed = ☐

9 dau ddeg dau a naw degfed = ☐

Pa un yw'r rhif degol mwyaf **ar y dudalen?**

Pa un yw'r rhif degol lleiaf **ar y dudalen?**

Ysgrifennwch yr holl rifau degol ar y dudalen mewn trefn.

Nodiadau'r Athro: Anogwch y disgyblion i gofnodi'r rhifau yma mewn colofnau i'w helpu i weld gwerth y digidau.

Beth yw'r gwahaniaeth?

- **Ysgrifennwch beth yw'r gwahaniaeth rhwng y rhifau.**
- **Defnyddiwch y llinellau rhif i'ch helpu.**

1.

= 1·1

2.

= ______

3.

= ______

4.

= ______

5. 

= ______

6. 

= ______

- **Cyfrwch ymlaen neu yn ôl i ddod o hyd i'r gwahaniaeth rhwng y parau o rifau.**



7. 5·4 a 7·1 [ ]	**8.** 6·3 a 4·8 [ ]
9. 10·6 ac 11·3 [ ]	**10.** 4·1 a 2·5 [ ]
11. 8·7 a 10·3 [ ]	**12.** 12·8 a 9·9 [ ]
13. 0·4 a 3·3 [ ]	**14.** 6·2 a 3·9 [ ]

- **Ysgrifennwch ddeg pâr o rifau degol sydd â gwahaniaeth o** [0.7] **.**

Nodiadau'r Athro: Anogwch y disgyblion i wirio os yw'r rhifau ar y llinellau rhif yn cynyddu neu lleihau. Fel cymorth ychwanegol, gellir defnyddio preniau mesur wedi eu marcio mewn milimetrau i gwblhau'r ail ran o'r weithgaredd.

Pysgota

- **Rhowch y rhifau yn y lle cywir ar y linell rif.**

1.



2.



3.



4.



5.



- **Lluniwch linell rif o** 0 **i** 4.
- **Ysgrifennwch y rhifau yma ar y linell rhif.**

1·2 3·5 0·8 1·7 2·9 3·1

Nodiadau'r Athro: Bydd rhai disgyblion yn ei gweld yn haws cofnodi rhifau uwchben pob rhaniad ar y llinellau rhif.

Arian, Arian, Arian

- **Torrwch y cardiau allan.**
- **Rhowch y cardiau yn eu trefn gan ddechrau efo'r lleiaf.**
- **Dewiswch ddau gerdyn ac ysgrifennwch y rhifau.**
- **Ysgrifennwch swm o arian sydd rhwng y ddau**
- **Gwnewch hyn 10 gwaith**

Enghraifft: 69c 40c 34c

69c 34c

69c	£6.13	£2.15
£4.01	£1.27	£6.89
£6.31	£5.50	34c
£61.83	£3.71	£30.04
£3.64	£3.20	£4.10

Nodiadau'r Athro: Anogwch y disgyblion i ddarllen allan yn uchel y prisiau. Gellir defnyddio'r cardiau gyda'r dosbarth cyfan i ymarfer adio cyfansymiau neu i ddarganfod "un bunt yn fwy neu llai" neu "10c yn fwy neu llai."

Punnoedd a Cheiniogau

- **Ysgrifennwch y swm mewn** punnoedd **.**

1. 375c = £______
2. 414c = £______
3. 1074c = £______
4. 603c = £______
5. 773c = £______
6. 250c = £______
7. 132c = £______
8. 1817c = £______
9. 99c = £______

NODYN BANC

- **Ysgrifennwch y swm mewn** ceiniogau

10. £5.78 = _____ c
11. £7.16 = _____ c
12. £1.91 = _____ c
13. £3.86 = _____ c
14. £19.53 = _____ c
15. £6.06 = _____ c
16. £4.05 = _____ c
17. £24.00 = _____ c
18. £0.74 = _____ c

- **Adiwch y darnau arian.**
- **Ysgrifennwch eich atebion** mewn punnoedd **.**

19.


= £_______

20.


= £_______

- **Dewiswch bump swm o'r nodyn banc uchod.**
- **Tynnwch lun yr arian.**

Enghraifft: 1074c =



Nodiadau'r Athro: Fel gweithgaredd ychwanegol, rhowch dudalen o gatalog gyda prisiau cyfarwydd arni i'r dosbarth ymarfer trosi o'r punnoedd i geiniogau.

Centimedr Gantroed

- **Taflwch ddîs a symud eich cownter.**
- **Wedi glanio ar fesuriad, newidiwch y metrau i** centimetrau **.**



Nodiadau'r Athro: Gêm yw hon i ddau i bedwar disgybl. Bydd angen dîs ar bob grŵp a chownter lliw ar bob chwaraewr. Anogwch y disgyblion i gofnodi eu hatebion i lawr er mwyn gwirio eu canlyniadau wrth chwarae.

Y Pris Cywir

- **Talgrynnwch bris pob eitem i'r** bunt agosaf **.**

- **Talgrynnwch bris pob eitem i'r** ddeg ceiniog agosaf

Nodiadau'r Athro: Atgoffwch y disgyblion fod 50c (fel arfer) wedi ei dalgrynnu i'r bunt agosaf.

Posau Pres

- **Atebwch y problemau rhif.**

1. Mae gan Tom £3 o arian poced. Mae'n gwario 56c ar fferins.
Faint o arian sydd ganddo rwan? _________

2. Mae gan Sian £4.86. Mae ei mam yn rhoi 45c arall iddi.
Faint o arian sydd ganddi rwan?



3. Mae Huw yn prynu pensil am 37c, chwalwr am 59c a phren mesur am £1.20 a miniwr am 61c.
Faint mae Huw yn wario? __________

4. Gwariodd Lyn £2.24 a chafodd £1.97 o newid.
Faint o arian oedd ganddi ar y cychwyn? __________



5. Neidiodd cwningen 1.3m dros y bont, ac yna neidiodd 2.7m ymhellach. Pa mor bell neidiodd y gwningen? ________

6. Ciciodd peldroediwr bêl 15.43m i lawr y cae. Ciciodd chwaraewr arall y bêl 7.85m yn bellach.
Pa mor bell y ciciwyd y bêl? __________

Ysgrifennwch bedair stori rhif arall.

Gofynnwch i ffrind eu datrys.

Ysgrifennwch eich atebion cyn eu rhoi i'ch ffrind.

Nodiadau'r Athro: Bydd rhai o'r disgyblion yn cael y problemau'n anodd i'w datrys fel gwaith pen. Anogwch hwy i gofnodi'r cyfrifiadau yn eu llyfrau gwaith.

Trwm ac Ysgafn

- **Ysgrifennwch y rhifau ar y tuniau fel bod y glorian yn symud i'r cyfeiriad cywir.**



6·2 kg

2·6 kg



1·6 kg

1·7 kg



6·21 kg

6·02 kg



1·38 kg

1·83 kg



8·78 kg

7·88 kg



6·75 kg

6·8 kg

- **Ysgrifennwch y mesuriadau uchod yn y drefn gywir. Dechreuwch â'r rhif lleiaf.**

_______ _______ _______ _______ _______ _______

_______ _______ _______ _______ _______ _______

Nodiadau'r Athro: Camgymeriad cyffredin gan ddisgyblion yw meddwl fod 0.75 yn fwy na 0.8.

Cwningod Coll

- **Cyfatebwch ffracsiynau cyfartal â degolion i ddod o hyd i'r cwt cywir ar gyfer pob cwningen.**



- **Cwblhewch y brawddegau ffracsiynau gan ddefnyddio degolion.**

Enghraifft: ½ 50 = 0.5 x 50 = 25

1. $\frac{1}{4}$ o 8 = __________ = ____ **2.** $\frac{3}{4}$ o 12 = __________ = ____

3. $\frac{1}{10}$ o 30 = __________ = ____ **4.** $\frac{3}{10}$ o 100 = __________ = ____

Nodiadau'r Athro: Eglurwch fod y gair "o" yn cael ei gynrychioli mewn mathemateg gan x (lluosi), e.e. ¼ o 8 = ¼ x 8. Awgrymir defnyddio lliwiau gwahanol i uno pob cwningen â'i chwt.